Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**6 Awst 2020**

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymateb i'r adroddiad Dwy Ochr y Geiniog: Archwiliad o'r ffordd y mae'r heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn ystyried pobl fregus sy'n ddioddefwyr ac yn droseddwyr troseddau cyffuriau 'llinellau cyffuriau'**

Croesawaf yr adolygiad i'r ffordd y mae asiantaethau gwahanol yn cydweithio er mwyn mynd i'r afael â'r troseddau cymhleth hyn. Mae mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon yn ein cymunedau'n un o'm blaenoriaethau allweddol. O'r herwydd, mae fy nhîm eisoes wedi cynnal adolygiad o ymagwedd Dyfed-Powys. Cyhoeddais ganlyniadau'r adolygiad hwn fis Ebrill 2019, pan gefais fy nghalonogi gan yr ymagwedd ragweithiol tuag at fynd i'r afael â masnachu cyffuriau. Tynnais sylw at yr angen ar gyfer ymagwedd amlasiantaeth, yn enwedig o ran defnyddio'r gwasanaethau dargyfeiriol a chamddefnyddio sylweddau'n well er mwyn cefnogi troseddwyr a dioddefwyr agored i niwed. '

Rwy'n falch bod Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud cynnydd da yn eu gwaith partneriaeth drwy Fyrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Troseddau Difrifol a Throseddu Trefnedig o ran creu cynllun gweithredu ar gyfer llinellau cyffuriau. Mae Heddlu Dyfed-Powys dal yn cynnal ymgyrchoedd sy'n canolbwyntio ar gyffuriau'n llwyddiannus, gan sicrhau euogfarnau ac atafaeliadau sylweddol. Yr wyf hefyd wedi fy sicrhau bod dealltwriaeth a chydnabyddiaeth yr Heddlu o gaethwasiaeth modern dal yn gwella. Yr wyf yn fodlon bod pobl ifainc a phobl sy'n agored i niwed yn cael eu cydnabod felly yn gyntaf, gyda'u hanghenion yn cael eu hystyried yn gyntaf ac yn bwysicaf oll dros eu hymddygiad troseddol.